YR ATODLEN

Reheoliad 2(3)(b)

RHAN 1

FFURF 9A

Ffurf ar Ddatganiad o Effaith Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 (*a*)

Pŵer i weithredu datganiad breinio cyffredinol

1. Unwaith y mae Gorchymyn 20 (*b*) wedi dod yn weithredol, caiff (" ")*(c)* gaffael unrhyw ran o'r tir a ddisgrifir yn Atodlen 1 uchod (*d*) drwy weithredu datganiad breinio cyffredinol o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 ("y Ddeddf"). Effaith hyn, yn ddarostyngedig i baragraffau 3 a 5 isod, yw breinio'r tir yn y (*c*) ar ddiwedd y cyfnod a grybwyllir ym mharagraff 2.

Hysbysiadau ynglŷn â datganiad breinio cyffredinol

2. Cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl i (*c*) weithredu datganiad breinio cyffredinol, rhaid iddynt gyflwyno hysbysiad yn ei gylch i bawb sy'n meddiannu unrhyw ran o'r tir sydd wedi ei bennu yn y datganiad (ac eithrio tir lle mae un o'r tenantiaethau sy'n cael eu disgrifio ym mharagraff 4) ac i bob person sy'n rhoi gwybodaeth iddynt am y tir ar ôl cael y gwahoddiad sydd wedi'i gynnwys yn hysbysiad [cadarnhau] [gwneud]*(e)* y gorchymyn. Ar ôl cwblhau cyflwyno hysbysiadau ynglŷn â'r datganiad breinio cyffredinol, bydd cyfnod sydd wedi ei bennu yn y datganiad, nad yw'n llai na thri mis, yn cychwyn. Ar y diwrnod cyntaf ar ôl i'r cyfnod hwn ddod i ben, bydd y tir sydd wedi ei ddisgrifio yn y datganiad, yn ddarostyngedig i'r hyn a ddywedir ym mharagraffau 3 a 5, yn cael ei freinio yn y (*c*) ynghyd â'r hawl i fynd ar y tir a'i feddiannu. Bydd gan bob person y gallai'r (*c*) fod wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau iddynt mewn cysylltiad â'u buddiant yn y tir (ac eithrio tenant o dan un o'r tenantiaethau sy'n cael eu disgrifio ym mharagraff 4) yr hawl i hawlio iawndal am gaffael eu buddiant yn y tir, ynghyd â llog ar yr iawndal, a hynny o'r dyddiad breinio.

3. Y "dyddiad breinio" ar gyfer unrhyw dir sydd wedi ei bennu mewn datganiad fydd y diwrnod cyntaf ar ôl i'r cyfnod a grybwyllir ym mharagraff 2 ddod i ben, oni fydd gwrth-hysbysiad yn cael ei gyflwyno o dan Atodlen 1A i'r Ddeddf o fewn y cyfnod hwnnw. Os cyflwynir gwrth-hysbysiad, caiff y dyddiad breinio ar gyfer y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad yn cael ei

bennu yn unol ag Atodlen A1.

Addasiadau mewn cysylltiad â thenantiaethau penodol

4. Yn achos tenantiaethau penodol, bydd addasiadau'n berthnasol i'r hyn sy'n cael ei ddatgan uchod. Mae'r addasiadau'n gymwys pan fo'r denantiaeth naill ai'n "fân denantiaeth", h.y. yn denantiaeth am flwyddyn neu'n denantiaeth flynyddol neu'n fuddiant llai, neu'n "denantiaeth hir sydd ar fin dod i ben". Ystyr "tenantiaeth hir sydd ar fin dod i ben" yw tenantiaeth sy'n cael ei rhoi ar gyfer buddiant sy'n fwy na mân denantiaeth ond, ar y diwrnod breinio, nad yw cyfnod y denantiaeth honno wedi dod i ben ac nad yw'r cyfnod hwnnw yn hwy na'r cyfnod a bennir yn y datganiad at y diben hwn (y mae'n rhaid iddo fod yn fwy na blwyddyn). Wrth gyfrifo faint sy'n weddill o denantiaeth, os bydd unrhyw opsiwn i'w hadnewyddu neu i'w therfynu ar gael i'r naill barti neu'r llall, tybir y bydd y landlord yn achub ar bob cyfle i derfynu'r denantiaeth ac y bydd y tenant yn achub ar bob cyfle i gadw neu i adnewyddu ei fuddiant.

5. Yr addasiadau yw na chaiff (*c*) weithredu'r hawl mynediad y cyfeirir ato ym mharagraff 2 mewn cysylltiad â thir sy'n ddarostyngedig i denantiaeth a ddisgrifir ym mharagraff 4 oni bai eu bod yn gyntaf yn cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â'r denantiaeth ac wedyn yn cyflwyno hysbysiad i bob un sy'n meddiannu'r tir o'u bwriad i fynd ar y tir a'i feddiannu ar ôl y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad (na chaiff fod yn llai na thri mis ar ôl cyflwyno'r hysbysiad). Bydd modd rhoi'r hawl mynediad ar waith ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Bydd breinio'r tir yn ddarostyngedig i'r denantiaeth tan ddiwedd y cyfnod hwnnw neu hyd nes y daw'r denantiaeth i ben, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Ffurf 9A (Rhan 2)

Rheoliad 2(3)(b)

Ffurf ar gyfer Rhoi Gwybodaeth

Gorchymyn Prynu Gorfodol 20 (b)

I: *(c)*

[Yr wyf fi] [Yr ydym ni] *(e)* [a minnau'n berson] [a ninnau'n bersonau]*(e)* a fyddai, pe bai datganiad breinio cyffredinol yn cael ei weithredu o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 mewn cysylltiad â'r holl dir sydd yn y gorchymyn prynu gorfodol y cyfeirir ato uchod ac na roddwyd hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad ag ef, â'r hawl i hawlio iawndal ar gyfer [yr holl dir] [rhan o'r tir] *(d)* hwnnw, yn rhoi'r wybodaeth a ganlyn ichi, yn unol â darpariaethau adran 15 o, neu baragraff 6 o Atodlen 1, i Ddeddf Caffael Tir 1981.

1. Enw a chyfeiriad yr hysbysydd/hysbyswyr (i) .....

2. Y tir y mae gan yr hysbysydd/hysbyswyr fuddiant ynddo (ii) .....

3. Natur y buddiant (iii) .....

   Llofnod .....

   [ar ran .....]*(e)*

   Dyddiad .. ..

.....

(i) Yn achos buddiant ar y cyd, mewnosoder enwau a chyfeiriadau'r hysbyswyr i gyd.

(ii) Dylid disgrifio'r tir yn gryno.

(iii) Os lesddaliad yw'r buddiant, dylid rhoi dyddiad cychwyn y cyfnod a'i hyd. Os yw'r tir o dan forgais neu fath arall o lyffethair, dylid rhoi'r manylion, e.e. enw'r gymdeithas adeiladu a'r rhif rôl.

NODIADAU AM DDEFNYDDIO FFURF 9A

(a) Rhaid i hysbysiad cadarnhau gorchymyn prynu gorfodol o dan adran 15 o Ddeddf Caffael Tir 1981 (neu, yn achos gorchymyn Gweinidogol, hysbysiad gwneud o dan baragraff 6 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno):--

(i) cynnwys datganiad rhagnodedig am effaith Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 (h.y. Rhan 1 o'r Ffurf hon); a

(ii) gwahodd unrhyw berson a fyddai, pe bai datganiad breinio cyffredinol yn cael ei weithredu o dan adran 4 o'r Ddeddf honno, â'r hawl i hawlio iawndal, i roi gwybodaeth i'r awdurdod caffael am eu henw a'u cyfeiriad a'r tir o dan sylw, gan ddefnyddio ffurf ragnodedig (h.y. Rhan 2 o'r Ffurf hon).

(b) Rhowch deitl y gorchymyn fel y cafodd ei wneud neu ei gadarnhau.

(c) Rhowch enw'r awdurdod caffael, a'i ddiffinio drwy ddefnyddio term priodol. Yna, rhowch y diffiniad lle bynnag y bydd "*(c)*" yn ymddangos yn y testun.

(d) Bydd Atodlen 1 i hysbysiad cadarnhau (neu, yn achos gorchymyn Gweinidogol, hysbysiad gwneud) gorchymyn prynu gorfodol, yn cynnwys disgrifiad o'r holl dir (a/neu'r hawliau newydd (os oes rhai)) sydd yn y gorchymyn. Dylid mewnosod Rhan 1 o'r Ffurf hon fel Atodlen ddilynol i'r hysbysiad cadarnhau (neu, yn achos gorchymyn Gweinidogol, yr hysbysiad gwneud).

(e) Dileer fel y bo'n briodol.

Rheoliad 2(3)(c)

RHAN 2

FFURF 10

Ffurf Hysbysiad o Wneud neu Gadarnhau Gorchymyn Prynu Gorfodol (gan Awdurdod nad yw'n Awdurdod Caffael)

[GORCHYMYN PRYNU GORFODOL ( )] *(a)*

Deddf [ ] *(a)*

a Deddf Caffael Tir 1981

[Ddeddf(au) [ ] *(a)*]

1. Hysbysir drwy hyn bod Gweinidogion Cymru drwy arfer eu pwerau o dan y Deddfau uchod ar [*(b)*] [wedi gwneud] [wedi cadarnhau] [gydag addasiadau] *(c)* [y *(ch)*] [a gyflwynwyd gan *(d)*] [ar ran cyngor [*rhowch yr enw*] *(c)*) ("y gorchymyn").

2. Mae'r gorchymyn yn darparu ar gyfer prynu [y tir] [a] [yr hawliau newydd]*(c)* a ddisgrifir yn Atodlen [1] isod at ddibenion [*(dd)*]. [Drwy gyfarwyddyd a roddwyd o dan [*mewnosoder y ddeddfwriaeth berthnasol*], cafodd ystyriaeth o'r gorchymyn, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r tir a ddisgrifir yn Atodlen 2 isod, ei gohirio tan [*mewnosoder y dyddiad perthnasol*].].

3. Adneuwyd copi o'r gorchymyn a'r map y cyfeirir ato yn y gorchymyn yn [*mewnosoder y man adneuo* (e)*]* a gellir eu gweld ar bob adeg resymol.

4. Bydd y gorchymyn yn weithredol ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad hwn am y tro cyntaf. Caiff person a dramgwyddir gan y gorchymyn, drwy wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i'r dyddiad hwnnw, herio'i ddilysrwydd o dan adran 23 o Ddeddf Caffael Tir 1981. Y seiliau ar gyfer herio yw na alluogwyd yr awdurdodiad a ganiateir gan y gorchymyn i gael ei roi neu fod methiant wedi bod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r gorchymyn.

neu

4. Mae'r gorchymyn yn ddarostyngedig i [weithdrefnau a osodwyd mewn Rheolau Sefydlog a luniwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a daw'n weithredol fel y darperir yn adran 26 o Ddeddf Caffael Tir 1981] [weithdrefn Seneddol arbennig a daw'n weithredol fel y darperir yn [Neddf Gorchmynion Statudol (Gweithdrefn Arbennig) 1945]*(f)*. [Oni chaiff y gorchymyn ei gadarnhau gan Ddeddf Seneddol o dan adran 6 o Ddeddf 1945, caiff person a dramgwyddir gan y gorchymyn, drwy wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad gweithredu, herio'i ddilysrwydd o dan adran 23 o Ddeddf Caffael Tir 1981. Y seiliau ar gyfer ei herio yw na alluogwyd yr awdurdodiad a ganiateir gan y gorchymyn i gael ei roi neu am fod methiant wedi bod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r gorchymyn.

5. Unwaith y mae'r gorchymyn wedi dod yn weithredol, caiff *(d)* gaffael unrhyw ran o'r tir a ddisgrifir yn Atodlen 1 isod drwy weithredu datganiad breinio cyffredinol o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981. Rhoddir datganiad am effaith Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf honno yn Atodlen [2] / [3] *(c)* isod.

6. Gwahoddir pob person y byddai ganddo'r hawl i hawlio iawndal, pe bai datganiad breinio cyffredinol yn cael ei weithredu o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 mewn cysylltiad â'r tir sydd yn y gorchymyn (ac eithrio tir y rhoddwyd rhybudd i drafod telerau mewn cysylltiad ag ef) am unrhyw dir o'r fath, i roi gwybodaeth i'r (*d*) yn (*ff*) am enw a chyfeiriad y person a'r tir o dan sylw, gan ddefnyddio ffurf ragnodedig. Mae'r ffurf ragnodedig berthnasol wedi ei phennu yn Atodlen [3] / [4] (*c*) isod.

ATODLEN 1

[Y TIR] [A'R] [HAWLIAU NEWYDD] *(c)* SYDD YN Y GORCHYMYN FEL Y'I CADARNHAWYD*(c)*

(G)

[ATODLEN [2]

Y TIR Y GOHIRIIR YSTYRIAETH AMDANO]*(c)*

(ng)

ATODLEN [2] / [3] *(c)*

FFURF AR DDATGANIAD O EFFAITH RHANNAU 2 A 3 O DDEDDF PRYNU GORFODOL [DATGANIADAU BREINIO) 1981 *(h)*

ATODLEN [3] /[4] *(c)*
FFURF RHOI GWYBODAETH *(i)*

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

Rhagnodwyd Ffurf 10 ar fformat ddwyieithog a mater i bob awdurdod caffael yw ystyried y dull mwyaf priodol i ddefnyddio'r Ffurf yn yr amgylchiadau.

(a) Mewnosoder teitl y gorchymyn, y pennawd a'r is-bennawd fel sydd yn y gorchymyn a wnaed neu a gadarnhawyd.

(b) Mewnosoder dyddiad gwneud (ar gyfer gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru) neu ddyddiad cadarnhau'r gorchymyn (mewn achosion eraill).

(c) (Dileer fel y bo'n briodol)

(ch) Mewnosoder teitl y gorchymyn.

(d) Mewnosoder enw'r awdurdod caffael.

(dd) Mewnosoder y diben fel y'i nodwyd yn y gorchymyn.

(e) Rhaid i'r man adneuo fod o fewn y gymdogaeth (gweler adran 11(2) (c) o Ddeddf Caffael Tir 1981) a rhaid iddo fod o fewn cyrraedd rhesymol y bobl sy'n byw yn yr ardal yr effeithir arni.

(f) Fe allai prynu tir yn orfodol neu brynu'n orfodol hawliau newydd dros dir sydd o'r fath a nodir yn adran 17(2) neu 19 o Ddeddf 1981 fod yn ddaroystyngedig i weithdrefn arbennig a sefydlwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac, yn achos tir neu hawliau dros dir y mae adran 18 o Ddeddf 1981 yn gymwys iddo, yn ddaroystyngedig i weithdrefn Seneddol arbennig o dan Ddeddf Gorchmynion Statudol (Gweithdrefn Arbennig) 1945.

(ff) Mewnosoder cyfeiriad yr awdurdod caffael y dylid anfon yr wybodaeth iddo

(g) Mewnosoder disgrifiad o'r holl dir (a/neu'r hawliau newydd (os oes rhai)) a ddisgrifir yn y gorchymyn. Nid oes raid i hyn ailadrodd yr Atodlen i'r gorchymyn, ond rhaid iddo gael ei eirio fel y bydd perzonau â buddiant yn gallu gweld ar unwaith zut yr effeithir ar eu tir. Os yw manylion yr hawliau newydd yn faith, gellir cynnwys crynodeb addas.

(ng) Mewnosoder disgrifiad o'r tir (a/neu'r hawliau newydd (os oes rhai)) sydd yn y gorchymyn y gohirir ystyriaeth amdano.

(h) Mewnosoder Rhan 1 o Ffurf 9A

(i) Mewnosoder Rhan 2 o Ffurf 9A

Rheoliad 2(3)(d)

RHAN 3

FFURF 11

Ffurflen Hysbysu o wneud Gorchymyn Prynu Gorfodol gan Awdurdod Caffael

[GORCHYMYN PRYNU GORFODOL( )] *(a)*

Deddf [ ] *(a)*

a Deddf Caffael Tir 1981

[Deddf(au) [ ] *(a)*]

1. Hysbysir drwy hyn bod [*(b)*], drwy arfer ei bwerau o dan y Deddfau uchod, ar [*(c)*] wedi cadarnhau [y *(ch)*] a wnaed ganddo [ar ran cyngor] *(d)* ("y gorchymyn"). Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r gorchymyn o fewn y cyfnod a ganiateir, ac o'r herwydd, rhoddwyd hysbysiad gan Lywodraeth Cymru y caiff yr awdurdod caffael arfer y pŵer i gadarnhau'r gorchymyn yn unol ag adran 14A o Ddeddf Caffael Tir 1981.

2. Mae'r gorchymyn yn darparu ar gyfer prynu [y tir] [a'r] [hawliau newydd] a ddisgrifir yn Atodlen 1 isod at ddibenion [*(dd)*].

3. Adneuwyd copi o'r gorchymyn a'r map y cyfeirir ato yn gorchymyn yn [*mewnosoder y man adneuo* (*e*)] ac maent ar gael i'w gweld ar bob adeg resymol.

4. Bydd y gorchymyn yn weithredol ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad hwn am y tro cyntaf. Caiff person a dramgwyddir gan y gorchymyn, drwy wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad hwnnw, herio'i ddilysrwydd o dan adran 23 o Ddeddf Caffael Tir 1981. Y seiliau ar gyfer herio yw na alluogwyd yr awdurdodiad a ganiateir gan y gorchymyn i gael ei roi neu am fod methiant wedi bod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r gorchymyn.

5. Unwaith y mae'r gorchymyn wedi dod yn weithredol, caiff *(b)* gaffael unrhyw ran o'r tir sydd wedi ei disgrifio yn Atodlen 1 isod drwy weithredu datganiad breinio cyffredinol o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981. Rhoddir datganiad am effaith Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf honno yn Atodlen 2 isod.

6. Gwahoddir pob person y byddai ganddo'r hawl i hawlio iawndal, petai datganiad breinio cyffredinol yn cael ei weithredu o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 mewn cysylltiad â'r tir sydd yn y gorchymyn (ac eithrio tir y rhoddwyd rhybudd i drafod telerau mewn cysylltiad ag ef) mewn cysylltiad ag unrhyw dir o'r fath, i roi gwybodaeth i'r *(b)* yn *(f)* am ei enw a'i gyfeiriad a'r tir o dan sylw, gan ddefnyddio ffurf ragnodedig. Mae'r ffurf ragnodedig berthnasol yn Atodlen 3 isod.

ATODLEN 1

[Y TIR] [A'R] [HAWLIAU NEWYDD] *(c)* SYDD YN Y GORCHYMYN FEL Y'I CADARNHAWYD

(ff)

ATODLEN 2

FFURF AR DDATGANIAD O EFFAITH RHANNAU 2 A 3 O DDEDDF

PRYNU GORFODOL [DATGANIADAU BREINIO) 1981

(h)

ATODLEN 3
FFURF RHOI GWYBODAETH

(ng)

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(a) Mewnosoder y teitl, y pennawd a'r is-bennawd fel zydd yn y gorchymyn a wnaed neu a gadarnhawyd.

(b) Mewnosoder enw'r awdurdod caffael.

(c) Mewnosoder dyddiad cadarnhau'r gorchymyn.

(ch) Mewnosoder teitl y gorchymyn.

(d) Os yw'r caffaeliad ar ran cyngor arall, mewnosoder enw'r cyngor hwnnw. Os nad yw ar ran cyngor arall, dileer y deunydd hwn.

(dd) Mewnosoder y diben fel y'i nodwyd.

(e) Rhaid i'r man adneuo fod o fewn y gymdogaeth (gweler adran 11(2) (c) o Ddeddf Caffael Tir 1981). Rhaid iddo fod o fewn cyrraedd rhezymol y bobl zy'n byw yn yr ardal yr effeithir arni.

(f) Mewnosoder cyfeiriad yr awdurdod caffael y dylid anfon gwybodaeth iddo.

(ff) Mewnosoder dizgrifiad o'r holl dir (a/neu'r hawliau newydd (os oes rhai)) a ddizgrifir yn y gorchymyn. Nid oes raid i hyn ailadrodd yr Atodlen i'r gorchymyn, ond rhaid iddo gael ei eirio fel y bydd perzonau â buddiant yn gallu gweld ar unwaith zut yr effeithir ar eu tir. Os yw manylion yr hawliau newydd yn faith, gellir cynnwyz crynodeb addas.

(g) Mewnosoder Rhan 1 o Ffurf 9A.

(ng) Mewnosoder Rhan 2 o Ffurf 9A.